

# NEWYDDLEN

## Swyddfeydd Newydd y Cyngor ym Mae Colwyn



### RHIFYN 1 - CHWEIFROR 2017

Croeso i'r newyddlen brosiect gyntaf ar adeiladu swyddfeydd newydd ym Mae Colwyn. Mae'r prosiect yn rhan allweddol o Strategaeth Gofod Swyddfa'r Cyngor, a ddechreuodd yn 2013, i symleiddio nifer ei swyddfeydd. Bydd yr adeilad swyddfa, 100,000 troedfedd sgwâr, yn adeilad modern pedwar llawr yng nghanol y dref a fydd yn galluogi i'r Cyngor foderneiddio a symleiddio ei swyddogaethau. Bydd yr adeilad eiconig a'r cannoedd o aelodau staff a fydd yn gweithio yno hefyd yn darparu buddion adfywio allweddol i un o drefi mwyaf Gogledd Cymru. Disgwylir y bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn diwedd 2018.

Nod y newyddlen hon yw rhoi diweddariad ar y prosiect a sicrhau bod y cyhoedd a busnesau'n derbyn y wybodaeth ddiweddaraf. Roedd 2016 yn flwyddyn brysur iawn ar gyfer y prosiect. Dechreuodd y gwaith ar y safle ym misoedd olaf 2016, pan ddaeth contractwyr arweiniol Muse Developments, sef Bowmer & Kirkland, i'r safle yn gynnar ym mis Tachwedd. Muse yw partner datblygu'r Cyngor ar gyfer y prosiect. Bydd 2017 hefyd yn flwyddyn brysur iawn ar gyfer y prosiect ac rydym yn edrych ymlaen at rannu newyddion allweddol a digwyddiadau gyda chi.

Dywedodd Wes Erlam, Cyfarwyddwr Datblygu Muse, "Roedd llawer o waith paratoi i'w wneud y llynedd er mwyn sicrhau bod y prosiect pwysig hwn yn barod ar gyfer y cam nesaf, gan gynnwys derbyn cymeradwyaeth cynllunio a sicrhau cyllid. Eleni, bydd unigolion sy'n cerdded heibio yn sicr o weld mwy o brysurdeb ar y safle – mae'r gwaith dymchwel eisoes ar waith, ac mae disgwyl i'r

gwaith adeiladu ddechrau yn y gwanwyn. Rydym yn edrych ymlaen i ymgysylltu â'r gymuned leol a gweld yr adeilad newydd yn dechrau siapio."

### DECHRAU AR Y DYMCHWEL...



Canol 2016—Cyn dechrau ar y gwaith



Rhagfyr 2016 – Yn ystod y gwaith dymchwel



Ionawr 2017 – Y gwaith dymchwel wedi'i gwblhau

## NEWYDDION O'R SAFLE

Cychwynnodd y broses ddymchwel yng nghanol mis Tachwedd, cafodd tu mewn i'r adeilad ei stripio a symud yr asbestos, i'w ddilyn gan ddymchwel prif ffabrig yr adeilad. Cynhaliwyd y gwaith gan Anthony O'Connor & Sons Ltd ar gyfer Bowmer & Kirkland, gyda llawer o'r deunyddiau yn cael eu hail-ddefnyddio ar y safle neu'n cael eu symud oddi yno a'u hailgylchu.

Dywedodd Mark Hooson, Rheolwr Prosiect Bowmer & Kirkland, "Yn dilyn cyfnod hir o baratoi, mae'n braf cael dechrau gweithio ar y safle. Ers dechrau ar y gwaith rydym wedi profi lefel dda o ryngweithio gyda phreswylwyr lleol ac mae sawl un sy'n cerdded heibio yn oedi y tu allan i wyllo drwy'r ffens perimedr wrth i'r peiriannau mawr a'r peiriannau turio ddymchwel yr adeilad presennol. Ymddengys ar hyn o bryd bod pentyrrau mawr o ddeunydd dymchwel concriid ym mhob man ond bydd y rhain i gyd yn cael eu gwasgu a'u defnyddio fel rhan o'r sylfeini. Rydym yn deall y niwsans posibl y gall gweithiau o'r fath eu hachosi a byddwn yn ceisio lleihau unrhyw amhariad."



Jennings yn gweithio ar y safle

Dechreuodd Jennings, contractwyr peirianneg sifil ac adeiladu wedi'u lleoli yn Llysfaen, weithio ar y safle yng nghanol mis Rhagfyr 2016 gan ddechrau ar y gwaith sylfaen, paratoi'r safle ar gyfer pentyrru haenau, a chynnal gwaith priffyrdd ar y safle ac o'i amgylch ar gyfer Bowmer & Kirkland.

"Mae cael cwmni lleol, sy'n cyflogi 40 aelod o staff ar y safle yn ystod y cyfnod prysuraf, yn gweithio yn eu tref leol, ar gyfer yr Awdurdod Lleol am fod yn dda iawn ar gyfer yr economi leol," dywedodd Bleddyn Evans, Rheolwr Prosiect y Cyngor ar gyfer y swyddfeydd newydd. Roedd y buddion y gall y prosiect ei roi i'r economi leol yn ffactor bwysig yn ystod y broses gaffael.



Malcolm Robertson; Bleddyn Evans a Danny Jones

Dywedodd Danny Jones, Cyfarwyddwr Jennings, "Fel cwmni lleol, rydym yn falch iawn o gael bod ynghlwm â chontract sylweddol yn ein tref ein hunain." Rydym wedi bod yn ymwybodol o'r prosiect ers peth amser ac wedi mynychu digwyddiadau Cwrdd â'r Prynwr ym Mharc Eirias y llynedd. Rydym eisoes wedi derbyn dau brentis lleol ac rydym yn edrych i gynyddu nifer y prentisiaid yn ystod cyfnod y gwaith. Byddwn yn defnyddio llafur lleol, cyflenwyr lleol a derbyn prentisiaid lleol. Mae hyn yn bwysig iawn i ni."

Mae traffig un ffordd wedi'i gyflwyno ar hyd Ffordd Coed Pella, Ffordd Lansdowne a Queens Drive er mwyn rheoli palisau'r perimedr, cerbydau gwaith a chyfleusterau'r safle'n ddiogel.

### CANOLBWYNTIO AR...

Un o lwyddiannau cynnar y prosiect o ran y Cynllun Gwerth Cymdeithasol oedd penodiad Becky Uttley fel Swyddog Monitro Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol, Bowmer & Kirkland.



Aled Roberts a Becky Uttley o B&K

Yn ystod mis Ebrill 2016, mynychodd Becky Ffair Swyddi yn Venue Cymru, Llandudno, a rhoi copi o'i CV i B&K a oedd yn arddangos yn y digwyddiad. "Rwyf wedi mwynhau fy misoedd cyntaf yn gweithio â thîm ymroddedig B&K ar brosiect sydd â chymaint o fanteision ar gyfer yr economi leol a rhanbarthol. Derbyniais y cyfle hwn gan fy mod wedi mynychu'r Ffair Swyddi honno, ac er bod gweithio ar safle adeiladu yn brofiad gwbl newydd i mi, rwyf wedi gweithio yn y sector cymdeithasol

lleol am sawl blwyddyn ac rwyf yn edrych ymlaen at yr her newydd hon."

Ychwanegodd Malcolm Robertson, Rheolwr Contractau B&K, "Yn dilyn adolygiadau manwl â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, daethom i ddeall pwysigrwydd ymgysylltu â'r gymuned a gwneud defnydd o weithwyr lleol, lle bo'n bosib, er mwyn cynyddu'r manteision ar gyfer yr economi leol. Roeddem felly'n falch iawn ein bod yn gallu cynnig y cyfle hwn i unigolyn lleol ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda Becky a chyflenwi'r ymrwymadau pwysig a wnaed fel rhan o gynllun swyddfa newydd y cyngor."

### DIWEDDARIAD AR Y CYNLLUN GWERTH CYMDEITHASOL

Mae ymgysylltu â'r gymuned fusnes leol yn nod bwysig ar gyfer y prosiect, ac mae llawer o fusnesau lleol wedi bod ynghlwm â'r prosiect ers i Bowmer & Kirkland symud i'r safle ym mis Tachwedd. Roedd JB Monitor a Gwasanaethau Coed Gogledd Cymru, dau fusnes sydd wedi'u lleoli yn Sir Conwy, ynghlwm â chlirio'r safle. Cafwyd y deunyddiau adeiladu o Huws Gray, Mochdre. Anogir staff sy'n gweithio ar y safle i brynu eu cinio a byrbrydau o ganol tref Bae Colwyn, ac erbyn diwedd Ionawr, gwariwyd £1,200 mewn siopau lleol gan y rheini'n gweithio ar y safle. Mae'r rhain yn llwyddiannau cynnar ar gyfer yr economi leol ac yn gyfle gwych i fasnachwyr lleol fanteisio ar nifer yr ymwelwyr ychwanegol yn sgil y prosiect hwn.

Yn ogystal â'r buddion i fusnesau lleol, mae'r Cyngor yn awyddus i gynnwys y sector gwirfoddol. Mae'r cwmni Cerddoriaeth a Ffilm Cymunedol TAPE wedi'i gomisiynu gan Muse i drefnu ffotograffiaeth treigl amser ar y safle. Bydd y cwmni Cerddoriaeth a Ffilm Cymunedol TAPE, sydd wedi'i lleoli yn Hen Golwyn, wedi gosod camerâu i mewn ac o amgylch y safle i gael golwg ar y broses gyfan o'i dechrau i'w diwedd, yna gyda chymorth pobl ifanc lleol, bydd TAPE yn paratoi ffilmiau byr i arddangos y broses adeiladu dros

ddwy flynedd. Dywedodd Neil Dunsire, Cyfarwyddwr Gweithrediadau TAPE: "Mae hon yn enghraifft wych o'r ffordd mae prosiect masnachol yn gallu cynnig cyfleoedd i unigolion o fewn diwydiannau creadigol fagu sgiliau trosglwyddadwy y gellid eu defnyddio ar brosiectau eraill ac o fewn swyddi yn y dyfodol, yn yr achos hwn golygu unionlin a sgiliau TG."

Mae'r Tîm Prosiect yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth y Tywysog ar y cynllun 'Get into Construction'. Bydd cyfle i oddeutu 15 unigolyn di-waith, rhwng 18 a 25 mlwydd oed, nad ydynt mewn addysg nac yn derbyn hyfforddiant, dderbyn cyfle i ymgymryd â rhaglen tair wythnos i ddysgu sgiliau gwaith daear. Bydd y cyfle hwn yn ddibynnol ar broses ddewis ac yn dechrau ym mis Mehefin 2017. Mae proses recriwtio ar waith ar hyn o bryd a gofynnwn i'r sawl sydd â diddordeb gysylltu â'r Prosiect drwy e-bostio [OAS@conwy.gov.uk](mailto:OAS@conwy.gov.uk)



Gwaith Adeiladu ar y Safle

## Y STRATEGAETH GOFOD SWYDDFA

Er mai dim ond yn ystod y misoedd diwethaf y dechreuodd y gwaith gweladwy ar y safle, dechreuodd Strategaeth y Cyngor ym mis Ionawr 2013, ac ers hynny, mewn ymdrech i symleiddio ei ystâd, mae'r Cyngor wedi bod yn cael gwared â swyddfeydd i geisio gwneud arbedion. Dechreuwyd â 25 swyddfa yn 2013 a'r nod yw lleihau'r nifer i dair prif swyddfa a dau ganolbwynt erbyn 2018. Drwy gyfuno'r stoc, bydd hyn o gymorth i foderneiddio dull y Cyngor o weithio, a

sicrhau ei fod yn fwy hygyrch ar gyfer trigolion Conwy.



94 Ffordd Conwy, Bae Colwyn.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi cael gwared â sawl swyddfa, gan gynnwys dwy'n agos at safle'r datblygiad newydd, sydd wedi cynhyrchu arbedion a buddion i'r gymuned. Daeth 94 Ffordd Conwy i feddiant Cartrefi Conwy yn 2015 fel rhan o gynllun Llefydd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru er mwyn ei drawsnewid i chwe uned fforddiadwy, a oedd ar gael i drigolion lleol eu rhentu. Daeth eiddo arall, yng nghanol Bae Colwyn i feddiant Pennaf yn 2016 gyda'r bwriad o'i drawsnewid i lety arbenigol.

"Mae hyn o fantais pawb. Gall y Cyngor leihau ei gostau rhedeg ac osgoi ôl groniad gwaith cynnal a chadw yn y dyfodol ar yr hen adeiladau hyn. Gall ein partneriaid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig drawsnewid yr adeiladau hyn er mwyn mynd i'r afael â'r alwad am lety, a sicrhau bod tai o ansawdd ar gael o fewn y gymuned leol," dywedodd Bleddyn Evans.

## DIGWYDDIAD CWRDD Â'R PRYNWR

Bydd Bowmer & Kirkland yn cynnal digwyddiad Cwrdd â'r Prynwr pellach yn ystod Haf/ Hydref 2017, a bydd cyfle i gwmnïau lleol ddarganfod mwy am y pecynnau gwaith is-gontract gorffen gwahanol sy'n ofynnol i gwblhau'r prosiect. Am ragor o wybodaeth am y digwyddiad, e-bostiwch [OAS@conwy.gov.uk](mailto:OAS@conwy.gov.uk) neu [s.martin@bandk.co.uk](mailto:s.martin@bandk.co.uk)